Department for Culture, Media & Sport

# MANYLEB SWYDD

# CADEIRYDD S4C A HYD AT BUM

# AELOD ANWEITHREDOL

## Cyflwyniad

Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn chwilio am unigolyn eithriadol sydd â sgiliau arwain amlwg a brwdfrydedd dros ddatblygu cyfryngau a darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg, i gadeirio S4C.

## Cefndir

S4C (Sianel Pedwar Cymru) yw'r unig ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus a darparwr cyfryngau Cymraeg pwrpasol yn y DU. Corfforaeth statudol yw S4C, cafodd ei sefydlu'n wreiddiol yn 1982 ac mae bellach yn cael ei reoleiddio gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Darlledu 1990. Mae'n annibynnol ar lywodraeth y DU, yn weithredol ac yn olygyddol.

Mae S4C yn darparu gwasanaethau cyfryngau a chynnwys o ansawdd uchel yn y Gymraeg, gan gynnig adloniant, gwybodaeth ac ysbrydoliaeth sy'n ceisio cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl ar draws ystod o lwyfannau cyfoes ar hyd a lled Cymru, y DU a'r tu hwnt.

Yn ôl Adroddiad Blynyddol S4C ar gyfer 2023-24, mae cyrhaeddiad blynyddol S4C ar deledu yng Nghymru wedi codi 5% i 1,713,000 o wylwyr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar ben hynny, gwelodd gynnydd o 9% yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gwylio o wythnos i wythnos yn 2023-24 - y ffigur uchaf ers chwe blynedd. Mae'r oriau o gynnwys sy'n cael ei wylio ar lwyfan digidol S4C, sef S4C Clic, neu ar iPlayer wedi cynyddu bron i draean yn 2023-24 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae S4C hefyd wedi gweld cynnydd o 53% yn nifer yr oriau sy'n cael eu gwylio ar YouTube, ac mae hynny'n ganolog i nod S4C o dyfu a chynnal cynulleidfa iau.

Yn 2023, gwerthodd S4C ei drama drosedd Dal y Mellt (Rough Cut) i Netflix – y ddrama uniaith Gymraeg gyntaf i gael ei thrwyddedu ar Netflix. Ym mis Mehefin 2023, llofnododd S4C gytundeb allbwn masnachol hefyd i ddarparu 6 awr yr wythnos o gynnwys Cymraeg wedi'i guradu gan Ryan Reynolds ar gyfer y Sianel Maximum Effort sy'n cael ei ffrydio ar "Welsh Wednesdays" mewn darllediad wythnosol. Mae'r sianel ar gael i'w gwylio yn yr Unol Daleithiau a bydd y cytundeb masnachol yn creu incwm i'w fuddsoddi'n ôl yn y sector creadigol yng Nghymru.

Dyletswydd Bwrdd S4C yw sicrhau bod S4C yn cynrychioli gwasanaeth cyhoeddus er mwyn dosbarthu gwybodaeth, addysgu ac adloniant. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli effeithiol, gan gynnwys rheolaeth ariannol, ar waith ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a masnachol S4C. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod annibyniaeth S4C yn cael ei diogelu.

Rhaid i Fwrdd S4C feddu ar ddealltwriaeth fanwl o ddatblygiadau darlledu ac ar-lein, ac o'r llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried mentrau diwylliannol a mentrau eraill wrth benderfynu ar ei strategaeth, a sefyllfa ieithyddol-gymdeithasol y Gymraeg.

Fel comisiynydd-ddarlledwr sydd ag ymrwymiad i'r sector cynhyrchu annibynnol, mae S4C yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi greadigol yng Nghymru. Daeth ymchwil annibynnol i'r casgliad bod cyfraniad economaidd S4C wedi arwain at 1,900 o swyddi ac wedi cynhyrchu £136m ar gyfer economi Cymru. S4C yw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-effeithiol yn y DU, gyda chost yr awr sylweddol is na darlledwyr eraill ac mae ei gweithgareddau hefyd yn cynhyrchu refeniw treth sy'n fwy na'r arian mae'n ei dderbyn. Am bob £1 o gyllid ffi'r drwydded a gaiff S4C, cynhyrchir £1.02 mewn treth i'r Trysorlys.

Yn dilyn yr adolygiad annibynnol o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, mae trefn lywodraethu S4C bellach yn seiliedig ar fodel Bwrdd Unedol (yn lle'r Awdurdod anweithredol blaenorol). Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn gweithredu fel Bwrdd Unedol Cysgodol yn unol â Rheolau Sefydlog y Bwrdd nes bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei rhoi ar waith - gwneir hyn drwy'r Ddeddf Cyfryngau 2024, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2024. Disgwylir i'r Cadeirydd a benodir gamu i mewn i rôl Cadeirydd y Bwrdd Unedol pan gaiff hynny ei sefydlu mewn statud.

Mae rhagor o wybodaeth am S4C ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad o Gyfrifon: https://adroddiad.s4c.cymru/.

**Cyllid**

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn gosod dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau bod S4C yn cael swm y mae'n ei ystyried yn ddigonol i alluogi S4C i dalu am y gost o ddarparu ei wasanaethau cyhoeddus.

Ar hyn o bryd, mae S4C yn cael ei ariannu drwy gymysgedd o gyllid o ffi'r drwydded deledu drwy'r BBC, a refeniw masnachol a hysbysebu. Yn 2023/24 cyfanswm trosiant S4C oedd £88.850m. Mae S4C hefyd yn cael o leiaf 10 awr yr wythnos o raglenni Cymraeg gan y BBC yn rhad ac am ddim, yn unol â'r gofynion statudol perthnasol.

Mae Cytundeb Fframwaith y BBC – Rhagfyr 2016 yn nodi lefel cyllid Ffi'r Drwydded a ddarperir ar gyfer S4C tan 2021/22, ynghyd ag ymrwymiad i ddarparu cyllid Ffi'r Drwydded ar gyfer S4C tan 2027/28; bydd y swm yn cael ei bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar ôl ymgynghori â'r BBC ac S4C. Cafodd y Cytundeb Fframwaith ei ddiweddaru ym mis Mai 2022 i adlewyrchu setliad ffi'r drwydded a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022 ar gyfer y cyfnod 2022/23 i 2027/28.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cytundeb Fframwaith ar gael yma: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/628dea60e90e071f6af14658/E02743849_CP_682_Web_Accessible.pdf.

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd S4C a'r BBC gytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd newydd a oedd yn nodi'r trefniadau manwl ar gyfer gweithredu S4C a phartneriaeth y BBC, ynghyd â darpariaethau ariannu ac atebolrwydd ariannol ar gyfer cyllid Ffi'r Drwydded.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd ar gael yma: https://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/partnerships/cytundeb_partneriaeth_ariannu_ac_atebolrwydd_rhwng_y_bbc_ac_s4c.pdf.

**Rôl y Bwrdd**

Mae'r Bwrdd Unedol cysgodol yn cynnwys hyd at naw aelod anweithredol, ynghyd â'r Prif Weithredwr, a dau aelod gweithredol arall.

Er nad yw'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn penderfyniadau o ddydd i ddydd, mae'n cadw cyfrifoldebau mewn nifer o feysydd allweddol, sef: cyfrifoldebau darlledwr, rôl strategol a goruchwylio, rhai cyfrifoldebau rheoli, cyfrifoldebau rheoleiddio, a rôl gyhoeddus. Mae angen i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gwerthfawrogi pob un o'r rhain a'u bod yn gallu cyfrannu at waith y Bwrdd ym mhob un o'r meysydd hyn.

Mae'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn monitro'r systemau sydd ar waith i sicrhau bod gwasanaeth darlledu a gwasanaeth rheoli S4C yn gallu gweithredu mewn modd annibynnol priodol heb unrhyw ymyrraeth allanol.

Mae rhagor o wybodaeth am Fwrdd S4C ar gael yn yr Adroddiad Llywodraethu yn yr Adroddiad Blynyddol **yma**.

**Rôl Darlledu**
Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau Cymraeg S4C ar deledu, digidol ac ar-lein.

Nid yw'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn penderfyniadau golygyddol o ddydd i ddydd, er ei fod yn datblygu ac yn gosod y strategaeth ar gyfer gwasanaethau S4C ac yn goruchwylio cydymffurfiaeth gwasanaethau S4C â'r darpariaethau deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol, gan gynnwys Cod Darlledu Ofcom.  Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo Strategaeth Cynnwys S4C, y Datganiad Polisi Rhaglenni Blynyddol, y Cynllun Gwaith Blynyddol ac unrhyw wasanaethau y mae angen gorchymyn statudol ar eu cyfer.

Mae gan y Bwrdd ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i ganfod barn y cyhoedd ar raglenni a gyhoeddir gan S4C, unrhyw effaith a gaiff y rhaglenni hynny ar agweddau neu ymddygiad gwylwyr, yn ogystal â'r mathau o raglenni y byddai aelodau o'r cyhoedd yn dymuno eu gweld ar S4C.

**Rôl Strategol a Goruchwyliol**
Fel corff annibynnol, mae S4C yn gallu gosod ei strategaeth a'i amcanion ei hun er mwyn cyflawni ei swyddogaeth statudol. Yn hyn o beth, mae gwaith y Bwrdd yn cynnwys:

- cymeradwyo strategaeth gorfforaethol S4C, ac unrhyw is-strategaethau (fel y Strategaeth Cynnwys), a chytuno ar yr amcanion cysylltiedig a'r fframweithiau mesur perfformiad perthnasol;
- adolygu'r gwaith o gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt drwy fonitro perfformiad, dwyn y Prif Weithredwr a'i Dîm Rheoli i gyfrif am eu perfformiad wrth ddarparu gwasanaethau S4C, cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y sianel, a gweithgareddau eraill gan gynnwys sicrhau diwylliant sefydliadol cadarnhaol; a
- chymeradwyo'r gyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol hirdymor S4C.

**Rôl Rheoli**
Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus S4C a gweithgareddau eraill i'r Prif Weithredwr, o fewn fframwaith a bennir gan y Bwrdd. Fodd bynnag, mae gan y Bwrdd dasgau rheoli penodol, gan gynnwys:

- sicrhau bod S4C yn atebol am yr holl wariant cyhoeddus drwy gymeradwyo a goruchwylio gweithdrefnau rheoli, archwilio a llywodraethu corfforaethol effeithiol;
- penodi'r Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd, a chymeradwyo'r fframwaith cyflogau ar gyfer staff S4C;
- cymeradwyo ac adolygu prif bolisïau a chodau S4C;
- craffu ar gyfrifon rheoli a'r Datganiad o Gyfrifon blynyddol;

- sicrhau a monitro trefniadau ariannol effeithiol a phenodi archwilwyr mewnol; a
- phennu'r strategaeth ar gyfer gweithgareddau masnachol S4C.

**Cyfrifoldebau Rheoleiddio**

Yn amodol ar weithredu darpariaethau deddfwriaethol newydd mewn perthynas â rheoleiddio gwasanaethau 'ar-alw' S4C, mae'r Bwrdd yn parhau i arfer nifer gyfyngedig o gyfrifoldebau rheoleiddio sy'n ymwneud â gwasanaethau ar-lein S4C sydd y tu allan i ddarpariaethau presennol Cod Darlledu Ofcom.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar Broses Gwyno S4C, sy'n nodi'n fanwl sut rhoddir ystyriaeth i gwynion ynghylch materion cydymffurfio neu reoleiddio sy'n ymwneud â chynnwys S4C, ac mae wedi cyhoeddi'r broses honno.

**Rôl Gyhoeddus**

Y Cadeirydd a'r Bwrdd yw wyneb cyhoeddus S4C a, gyda'i gilydd, mae ganddynt gyfrifoldeb i fod yn hygyrch ac yn atebol i aelodau staff S4C, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Mae hyn yn cynnwys:

- bod yn gyfrifol am egluro rôl a chyfraniad S4C fel corff cyhoeddus;
- paratoi adroddiad blynyddol ar weithgareddau a pherfformiad S4C; ac
- ymateb i ymgynghoriadau priodol.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau S4C yn cael eu diogelu rhag ymyrraeth wleidyddol neu unrhyw ymyrraeth amhriodol arall.

Disgwylir i holl Aelodau'r Bwrdd wneud y canlynol:

- Gweithredu ar y cyd fel Bwrdd Unedol S4C a darparu cefnogaeth a chyngor, yn ogystal â herio'r Prif Weithredwr a'i dîm gweithredol yn briodol a sicrhau eu hatebolrwydd.
- Cefnogi'r Cadeirydd, mewn cysylltiad â'r Prif Weithredwr, i oruchwylio'r berthynas â DCMS, y BBC, Ofcom a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r sector cynhyrchu annibynnol.
- Ymgymryd â dyletswyddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ôl yr angen ar ran S4C gan gynnwys digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru.
- Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ac unrhyw gyfarfodydd arbennig/diwrnodau cwrdd i ffwrdd, a mynychu is-bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl yr angen.

Mae'r Bwrdd yn ceisio sicrhau bod ei aelodau, rhyngddynt, yn gallu manteisio ar ystod eang o arbenigedd a gwybodaeth am feysydd penodol sy'n berthnasol i waith S4C. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- Darlledu, y cyfryngau digidol a'r diwydiannau creadigol ehangach
- Yr iaith Gymraeg
- Cyfathrebu a marchnata
- Busnes a masnach

- Cyllid, archwilio a sicrwydd

## Manyleb Swydd Cadeirydd S4C

**Rôl Cadeirydd S4C**

Mae’r Cadeirydd yn rhannu cyfrifoldebau’r Bwrdd a disgwylir iddo wneud y canlynol:

- Gweithio’n agos gyda’r Prif Weithredwr, Ysgrifennydd y Bwrdd a’r uwch dîm gweithredol ehangach ar sail anweithredol; cefnogi’r Prif Weithredwr yn ei rôl fel swyddog cyfrifyddu a rhoi arweiniad, cyngor a chymorth iddo ef a’i Dîm Rheoli;
- Goruchwylio’r gwaith o recriwtio uwch swyddogion gweithredol, gan gynnwys penodi’r Prif Weithredwr;
- Cydymffurfio â’r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus, y Cod Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Arian Cyhoeddus, a sicrhau bod y Bwrdd cyfan yn cydymffurfio â’r rhain, yn ogystal â sicrhau bod y sefydliad yn glynu wrth y safonau gorau ar gyfer llywodraethu, gyda pholisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith;
- Arwain y Bwrdd mewn modd effeithiol a cholegol, gan gefnogi diwylliant cynhwysol a chadarnhaol ar draws y sefydliad a meithrin ymddiriedaeth ymysg rhanddeiliaid a staff ar bob lefel;
- Datblygu ac arwain cynllun gwaith blynyddol y Bwrdd, gan gysylltu ag Ysgrifennydd y Bwrdd ynghylch y trefniadau cysylltiedig ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a’i bwyllgorau, a mynd i gyfarfodydd yn ôl yr angen;
- Adolygu perfformiad cyffredinol y Bwrdd yn rheolaidd, gan gynnwys sicrhau bod pob aelod yn cyfrannu at Adolygiad Effeithiolrwydd Blynyddol y Bwrdd, gydag un o bob tri adolygiad yn un allanol;
- Cynnal gwerthusiadau rheolaidd gyda Chyfarwyddwyr Anweithredol unigol ar y Bwrdd;
- Arwain y gwaith o ddatblygu’r berthynas â’r BBC fel partner, ar lefel strategol ac ar lefel Bwrdd, gan weithio’n agos gyda’r Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd i roi’r berthynas ar waith;
- Gweithio’n agos gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y sector cynhyrchu annibynnol;
- Cynrychioli S4C pan yw’n ymwneud â Gweinidogion yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;
- Ymgymryd ag ystod eang o ddyletswyddau cysylltiadau cyhoeddus ar ran S4C, gan gynnwys cadeirio cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yn ôl yr angen ym mhob cwr o Gymru, ymateb i’r wasg a mynd i ddigwyddiadau cyhoeddus yn rheolaidd;

- Sicrhau dealltwriaeth drylwyr o waith S4C fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a darparwr cyfryngau, ac o'r sectorau teledu a digidol yng Nghymru, yn y DU ac mewn cyd-destun rhyngwladol.

**Yr Unigolyn**
Rydym yn chwilio am unigolyn rhagorol sydd â sgiliau arwain amlwg ar lefel uwch ac ymrwymiad i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus a datblygu'r Gymraeg, ac sydd â'r gallu i feithrin diwylliant o gynhwysiant ac ymddiriedaeth ym mhob rhan o'r sefydliad.

**Meini Prawf Hanfodol**
Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer swydd Cadeirydd S4C allu dangos:

- dealltwriaeth o amcanion S4C ac ymrwymiad iddynt;
- ymrwymiad i fynd i'r afael â'r heriau a hybu'r cyfleoedd sy'n wynebu datblygiad y Gymraeg, a dealltwriaeth o hynny;
- dealltwriaeth o'r prif heriau sy'n wynebu S4C, darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cyfryngau ehangach yng Nghymru;
- y gallu i arwain y newid a'r diwylliant yn y sefydliad;
- sgiliau arwain rhagorol ar lefel uwch a'r gallu i gadeirio'n effeithiol ar lefel bwrdd, gan gynnwys arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau, gwneud penderfyniadau a llywodraethu;
- sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i gynrychioli S4C yn hyderus gyda'r cyhoedd, y Llywodraeth ac ystod eang o grwpiau rhanddeiliaid;
- ymrwymiad i gyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae'r Bwrdd yn cynnal y rhan fwyaf o'i fusnes yn Gymraeg ac felly bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddangos hyfedredd yn y Gymraeg, a fydd yn cael ei brofi yn y cyfweliad; bydd yn rhaid i ymgeiswyr ateb o leiaf un cwestiwn yn Gymraeg. Mae S4C yn gallu darparu rhywfaint o gefnogaeth i'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn rhinwedd eu gwaith proffesiynol.

**Ymrwymiad Amser**
Bydd ymrwymiad amser y Cadeirydd yn cyfateb i ddau ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd.

**Lleoliad Cyfarfodydd**
Mae Bwrdd S4C yn cyfarfod tua wyth gwaith y flwyddyn, fel arfer ym mhencadlys S4C yng Nghaerfyrddin, neu yn ei swyddfeydd eraill yng Nghaernarfon a Chaerdydd, er bod y Bwrdd hefyd yn cyfarfod mewn lleoliadau eraill yn ystod y flwyddyn. Bydd gofyn hefyd i'r Cadeirydd fynd i ddigwyddiadau ymgysylltu corfforaethol ac allanol yn y diwydiant.

**Taliadau**
£40,000 y flwyddyn. Gellir hawlio treuliau rhesymol.

**Hyd y Penodiad**
Bydd y penodiad am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o ail dymor. Ni chymerir yn ganiataol y bydd yr unigolyn yn cael ei ailbenodi.

**Dyddiad Dechrau**
Disgwylir y byddai'r Cadeirydd newydd yn ymgymryd â'i benodiad yn fuan yn 2025 ar ôl i'r broses benodi ddod i ben.

## Manyleb Swydd Aelodau Anweithredol S4C

**Rôl Aelodau Anweithredol S4C**
Mae Bwrdd S4C yn cynnwys y Cadeirydd a hyd at wyth aelod anweithredol arall, pob un wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae aelodau'n dod â sgiliau a phrofiad amrywiol i'r Bwrdd, er bod disgwyl i bob un ohonynt sicrhau bod S4C yn cyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a bod arian cyhoeddus a chyllid ffi'r drwydded a ddyrennir i S4C yn cael eu defnyddio'n briodol.

Bydd gofyn i Aelodau'r Bwrdd hefyd sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus S4C yn cael eu darparu yn unol â chylch gwaith statudol S4C a darpariaethau'r Cytundeb Partneriaeth presennol y mae S4C a'r BBC wedi cytuno arno rhyngddynt.

Disgwylir i Aelodau'r Bwrdd wneud y canlynol:

- Gweithredu ar y cyd fel Bwrdd Unedol S4C a darparu cefnogaeth a chyngor, yn ogystal â herio'r Prif Weithredwr a'i dîm gweithredol yn briodol a sicrhau eu hatebolrwydd.
- Cefnogi'r Cadeirydd, mewn cysylltiad â'r Prif Weithredwr, i oruchwylio'r berthynas â DCMS, y BBC, Ofcom a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r sector cynhyrchu annibynnol.
- Ymgymryd â dyletswyddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ôl yr angen ar ran S4C gan gynnwys digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru.
- Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ac unrhyw gyfarfodydd arbennig/diwrnodau cwrdd i ffwrdd, a mynychu is-bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl yr angen.

Mae'r Bwrdd yn ceisio sicrhau bod ei aelodau, rhyngddynt, yn gallu manteisio ar ystod eang o arbenigedd a gwybodaeth am feysydd penodol sy'n berthnasol i waith S4C. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- Darlledu, y cyfryngau digidol a'r diwydiannau creadigol ehangach
- Yr iaith Gymraeg
- Cyfathrebu a marchnata
- Busnes a masnach
- Cyllid, archwilio a sicrwydd

**Meini Prawf Hanfodol**

Rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer rolau Aelodau Anweithredol allu dangos:

- Dealltwriaeth o amcanion S4C ac ymrwymiad iddynt;
- Dealltwriaeth gadarn o'r heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu S4C a darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU, a'r sector cyfryngau ehangach a'r diwydiannau creadigol fel cyfangorff;
- Y gallu i weithio ar lefel bwrdd mewn rhinwedd anweithredol, a dealltwriaeth o rôl Bwrdd Unedol a'i berthynas â'i gyrff cyllido;
- Y gallu i gyfrannu'n effeithiol at ddatblygu strategaeth yn y dyfodol, gan gynnwys y bartneriaeth unigryw â'r BBC a rheolaeth ariannol strategol;
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i gynrychioli S4C yn hyderus i ystod eang o grwpiau rhanddeiliaid.
- Profiad ar lefel uwch yn y sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector.
- ymrwymiad i gyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant.

Ar ben hynny, disgwylir i o leiaf un o Aelodau'r Bwrdd a benodir drwy'r broses hon ddangos:

- Profiad o ddarlledu, y cyfryngau digidol a'r diwydiannau creadigol ehangach;

**Nodwch yn eich cais a ydych yn dymuno cael eich ystyried ar gyfer y rôl hon.**

Mae'r Bwrdd yn cynnal y rhan fwyaf o'i fusnes yn Gymraeg ac felly bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddangos hyfedredd yn y Gymraeg, a fydd yn cael ei brofi yn y cyfweliad; bydd yn rhaid i ymgeiswyr ateb o leiaf un cwestiwn yn Gymraeg. Mae S4C yn gallu darparu rhywfaint o gefnogaeth i'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn rhinwedd eu gwaith proffesiynol.

**Ymrwymiad Amser**

Yr ymrwymiad amser ar gyfer aelodau'r Bwrdd yw un diwrnod yr wythnos.

**Lleoliad Cyfarfodydd**

Mae Bwrdd S4C yn cyfarfod tua wyth gwaith y flwyddyn ym mhencadlys S4C yng Nghaerfyrddin, neu yn ei swyddfeydd eraill yng Nghaernarfon a Chaerdydd, er bod y Bwrdd hefyd yn cyfarfod mewn lleoliadau eraill yn ystod y flwyddyn. Bydd yr Aelodau hefyd yn cael eu gwahodd i fynd i ddigwyddiadau ymgysylltu corfforaethol ac allanol yn y diwydiant o bryd i'w gilydd.

**Tâl**

£9,650 y flwyddyn Gellir hawlio treuliau rhesymol.

**Hyd y Penodiad**

Bydd y penodiad am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o ail dymor. Ni chymerir yn ganiataol y bydd yr unigolyn yn cael ei ailbenodi.

**Y Broses Benodi**

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy’n gwneud penodiadau i Fwrdd S4C.  Ymgynghorir â Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Llywodraeth y DU ar gyfer Cymru yn ystod camau allweddol y broses.

**Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd yn rhaid i’r ymgeisydd sy’n cael ei ffafrio ar gyfer swydd y Cadeirydd ymddangos gerbron Pwyllgor Dethol y Senedd yn Nhŷ’r Cyffredin y DU cyn cael ei benodi.**

Mae’r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn hyrwyddo polisi cyfle cyfartal. Croesewir ceisiadau heb ystyried rhywedd, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu a oes gennych ddibynyddion ai peidio.

Gwneir penodiadau ar sail teilyngdod, ac mae’r broses yn cael ei rheoleiddio gan Swyddfa’r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.  Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys y rheoliadau y mae’n rhaid i gyrff penodi eu dilyn, ar gael ar wefan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Disgwylir i ymgeiswyr fod wedi glynu wrth y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus.

**Sut mae gwneud cais**

I wneud cais, ewch i https://apply-for-public-appointment.service.gov.uk/roles lle gallwch gyflwyno cais ar-lein. Bydd angen i chi ddarparu:

- CV dim mwy na dwy ochr A4; dylai hwn ddarparu manylion eich addysg a’ch cymwysterau, eich hanes cyflogaeth a phrofiad anweithredol neu wirfoddol presennol neu flaenorol;
- Datganiad ategol dim mwy na dwy ochr A4, yn nodi sut rydych chi’n bodloni’r meini prawf – cofiwch eich bod yn cyfeirio at gynnwys y fanyleb hon ar gyfer y swydd;
- Y Ffurflen Gwrthdaro Rhwng Buddiannau; a
- Gwybodaeth Monitro Amrywiaeth

**Os ydych chi’n gwneud cais am swydd y Cadeirydd, nodwch yn eich datganiad ategol a ydych chi hefyd yn dymuno cael eich ystyried ar gyfer un o’r swyddi Aelodau Anweithredol.**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y broses benodi, cysylltwch â: **Victoria Watts, Rheolwr Ymgyrchoedd Penodiadau Cyhoeddus, Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (victoria.watts@dcms.gov.uk).**

Os ydych chi’n awyddus i gael sgwrs am y swydd ei hun, cysylltwch â **Geraint Pugh, Ysgrifennydd Bwrdd S4C (geraint.pugh@s4c.cymru).**

Nid yw’r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gallu rhoi adborth wedi llunio’r rhestr fer oherwydd bod cynifer o geisiadau’n dod i law. Gellir rhoi adborth i ymgeiswyr yn dilyn y cyfweliadau, os gofynnir am hynny.

**Amrywiaeth a chynhwysiant**

Rydym am sicrhau bod y sawl a benodir yn ymrwymo i hyrwyddo amrywiaeth, yn ei ystyr ehangaf posibl. Bydd hyn yn cynnwys gwreiddio ymrwymiad i egwyddorion ‘codi’r gwastad’ a hyrwyddo cyfle i

bawb ar draws y sefydliad, gan helpu i sicrhau bod y sefydliad yn un lle gellir mynegi amrywiaeth wirioneddol amrywiol o safbwyntiau yn ddiduedd.

Gofynnwn i bob ymgeisydd lenwi ffurflen monitro amrywiaeth. Gobeithio y byddwch yn ein helpu drwy ddarparu'r wybodaeth hon. Ni chaiff eich data ei ddatgelu i'r panel, ond mae'n ein galluogi ni i werthuso'n barhaus unrhyw rwystrau posibl rhag cael penodiad cyhoeddus a'r hyn y gallwn ei wneud i annog ymgeiswyr mwy amrywiol i wneud cais.

**Hyderus o ran Anabledd**
Rydym yn gwarantu y bydd unrhyw ymgeisydd anabl yn cael cyfweliad os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Ystyr 'meini prawf sylfaenol' yw bod rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i ni yn eich cais sy'n dangos eich bod yn bodloni lefel y cymhwysedd sy'n ofynnol yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r meini prawf sylfaenol. Os ydych chi'n dymuno gwneud cais dan y cynllun hwn, nodwch hynny yn y llythyr eglurhaol wrth gyflwyno eich cais. Ni fydd hyn yn amharu ar eich cais mewn unrhyw ffordd.

**Addasiadau rhesymol**
Rydym wedi ymrwymo i gefnogi pob ymgeisydd i berfformio ar ei orau drwy gydol y broses benodi. Mae hyn yn cynnwys gwneud addasiadau rhesymol i'n proses. Mae addasiadau rhesymol cyffredin yn cynnwys cyflwyno eich cais mewn fformatau amgen (e.e. cyflwyniad llafar/fideo o'ch datganiad neu'ch CV), cynnig amseroedd neu leoliadau amgen ar gyfer cyfweliadau, darparu ysgrifennydd neu gyfieithydd ar y pryd, neu ganiatáu amser ychwanegol i ymgeiswyr baratoi ar gyfer cwestiynau cyn y cyfweliad. Os ydych chi'n awyddus i gael trafodaeth gyfrinachol ynglŷn ag unrhyw addasiadau rhesymol posibl cyn gwneud eich cais neu yn ystod y broses, cysylltwch â ni.

**Os nad ydych yn gwbl fodlon**
Ein nod yw prosesu pob cais cyn gynted â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych chi unrhyw gwynion am y ffordd y mae eich cais wedi cael ei drin, cysylltwch â publicappointments@dcms.gov.uk.

**Gwybodaeth ategol**
Mae'r broses benodi hon yn glynu wrth God Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet, sy'n cael ei reoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Disgwylir i bob ymgeisydd gadw at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a 12 Egwyddor Llywodraethu.

**Meini Prawf Cymhwysedd**
Ni ellir eich ystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus:

- os byddwch yn mynd yn fethdalwr neu'n gwneud trefniant gyda chredydwr
- os yw eich ystâd wedi cael ei secwestru yn yr Alban neu os ydych yn ymgymryd â rhaglen trefnu dyled dan Ran 1 Deddf Trefnu ac Atafaelu Dyledion (Yr Alban) 2002 (asp 17) fel y dyledwr neu os ydych, o dan gyfraith yr Alban, wedi caniatáu gweithred ymddiriedolaeth i gredydwyr;

- os ydych wedi'ch gwahardd rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986;
- os ydych wedi cael eich euogfarnu o drosedd, a bod yr euogfarn heb ddarfod at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (c. 53);
- os ydych yn dod yn destun gorchymyn rhyddhad dyled neu orchymyn cyfyngu methdaliad;
- os na fyddwch yn datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau.

**Gwrthdaro rhwng Buddiannau a Diwydrwydd Dyladwy**
Os oes gennych unrhyw fuddiannau a allai fod yn berthnasol i waith y sefydliad, ac a allai arwain at wrthdaro gwirioneddol neu ymddangosiadol rhwng buddiannau pe baech yn cael eich penodi, rhowch fanylion yn eich cais. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am hyn a'ch bod yn dymuno trafod hyn ymhellach, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus.

O ystyried natur penodiadau cyhoeddus, mae'n bwysig bod y rheini sy'n cael eu penodi'n aelodau o gyrff cyhoeddus yn cynnal hyder y Senedd a'r cyhoedd. Os oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol a allai, pe baech yn cael eich penodi, gael eu camddehongli, achosi embaras, neu beryglu hyder y cyhoedd yn y penodiad, mae'n bwysig eich bod yn eu dwyn i sylw'r Panel Asesu Ymgynghorol ac yn rhoi manylion y mater(ion) yn eich cais. Wrth ystyried a ydych yn dymuno datgan unrhyw faterion, dylech hefyd ystyried unrhyw ddatganiadau cyhoeddus rydych wedi'u gwneud, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

Fel rhan o'n gwiriadau diwydrwydd dyladwy, byddwn yn ystyried unrhyw beth sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n ymwneud â'ch ymddygiad neu eich gallu proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys cynnal chwiliadau o ddatganiadau cyhoeddus blaenorol a chyfryngau cymdeithasol, blogiau neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i'r cyhoedd. Efallai y byddwn yn darparu'r wybodaeth hon i'r Panel Asesu Ymgynghorol ac efallai y byddant yn dymuno edrych ar faterion gyda chi os cewch eich gwahodd i gyfweliad. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth â gweinidogion a Swyddfa'r Cabinet.

**Treuliau**
Ni fydd treuliau ymgeiswyr allanol yn ystod y broses recriwtio yn cael eu had-dalu, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, a dim ond pan gytunir ar hynny ymlaen llaw.